CYFARFOD: **BWRDD PENSIWN**

DYDDIAD: **10 RHAGFYR 2019**

TEITL: **DETHOL CYNRYCHIOLWYR AR GYFER MYNYCHU DIGWYDDIADAU AR 16 IONAWR A 27 - 28 CHWEFROR**

AWDUR: **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

---

**1.** Hoffwn hysbysu aelodau o'r Bwrdd Pensiwn am gyfle i fynychu 2 ddigwyddiad sydd wedi'u trefnu yn fuan yn 2020.

**2.** Bydd Link Fund Solutions Ltd (gweithredwr cronfeydd buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru) a Russell Investments (ymgynghorwyr / rheolwyr buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru) yn Ystafell Gwyrfai, Caernarfon, 10:00 – 12:30 ar ddydd Iau, 16 Ionawr, ar gyfer cyflwyniad anffurfiol i'r Pwyllgor Pensiynau.

**3.** Mae Link a Russell yn ymweld â'r 8 Pwyllgor Pensiynau sy'n aelodau o Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

**4.** Bydd cyfle i 2 neu 3 o aelodau'r Bwrdd fynychu'r digwyddiad, gwrando ar y cyflwyniadau a gofyn cwestiynau, cyn bydd cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Pensiynau am 1 o'r gloch.

**5. Gofynnir i'r Bwrdd Pensiwn enwebu 2 neu 3 aelod i'w cynrychioli yng nghyflwyniad Link a Russell ar 16 Ionawr 2020.**

**6.** Hefyd, fel y gwyddoch, mae Seminar Fuddsoddi'r LGC yn cael ei gynnal yn Carden Park ar 27 a 28 o Chwefror 2020 (manylion cryno yn atodol).

**7.** Mae'n hanfodol ar gyfer 'llywodraethu da' o Gronfa Bensiwn Gwynedd fod aelodau o'r Bwrdd Pensiwn a'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn hyfforddiant parhaus.

**8.** Mae H. Eifion Jones eisoes wedi'i enwebu a'i gofrestru i fynychu, efo swyddogion perthnasol, a 2 aelod o'r Pwyllgor.

**9.** Gan fod y digwyddiad uchel ei barch hwn yn cael ei gynnal mewn lleoliad rhesymol gyfleus, mae swyddogion y Gronfa wedi negodi pris gostyngedig er mwyn i un aelod ychwanegol o'r Bwrdd gael mynychu.

**10. Gofynnir i'r Bwrdd Pensiwn enwebu 1 aelod ychwanegol i'w cynrychioli yn Seminar Fuddsoddi'r LGC ar 27 a 28 o Chwefror 2020**.